

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AC

Mark.isherwood@cynulliad.cymru

8 Ionawr 2020

Annwyl Mark,

Yn ystod Cwestiynau'r Cynulliad ar 12 Rhagfyr fe wnaethoch fy holi a oedd unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi gwneud cais ffurfiol i newid y fformiwla ar gyfer dosbarthu cyllid i lywodraeth leol ers i chi holi'r cwestiwn y tro diwethaf ar 9 Hydref. Fe ddywedais y byddwn yn cadarnhau'r sefyllfa ddiweddaraf. Mae fy swyddogion wedi edrych a gallaf yn awr gadarnhau nad oes unrhyw gyngor wedi gwneud hyn.

Fe wnaethoch gyfeirio at lythyr dyddiedig 8 Hydref gan Arweinwyr Grŵp yng Nghyngor Sir y Fflint. I osgoi unrhyw amheuaeth, nid oeddwn ac nid ydwyf yn ystyried bod yr ohebiaeth hon yn gais i newid y fformiwla. Roedd y llythyr yn amlwg yn ymwneud â lefel gyffredinol y cyllid sy'n cael ei ddarparu i Lywodraeth Leol yng Nghymru. Nid yw mynegiad o bryder cyffredinol ynghylch effaith y fformiwla ar Gyngor penodol yr un fath â chais o ddifrif i wneud newidiadau penodol. Ni chytunais i gyfarfod y tro hwn. Fel y dywedais wrthyf, rwyf wedi cyfarfod gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru ac mae fy nghydweithwyr a minnau yn trafod cyllid ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys y fformiwla dosbarthu, yn rheolaidd gyda llywodraeth leol drwy'r Is-grŵp Cyllid. Ers inni siarad am hyn am y tro cyntaf ar 9 Hydref, mae'r Gweinidog Cyllid a minnau wedi cyfarfod Arweinwyr yn yr Is-grŵp Cyllid ym mis Tachwedd ac wedi cyfarfod gydag Arweinwyr CLILC yn benodol ynghylch y gyllideb ym mis Hydref.

Yn gywir

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.